Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

NODIADAU CYFARWYDDYD

LEADER

OGL

© Crown Copyright 2015 ISBN Number: 978-1-80195-340-5

Cynnwys

	PARA
Cyflwyniad	1
Manylion Cyswllt Cyrff Gweinyddol Grwpiau Gweithredu Lleol	19
Amcanion Strategol a Thematig	20
Gweithgareddau Cymwys	25
Costau Cymwys	36
Costau Anghymwys	38
Canllawiau Ychwanegol ar Gostau Refeniw	39
Arian Cyfatebol	65
Canllawiau Ychwanegol ar Arian Cyfatebol o Fath Arall	70
Cyfradd Grantiau	77
Cymorth Gwladwriaethol	79
Cylch Gorchwyl Grŵp Gweithredu Lleol	80
Dewis Gweithgareddau neu Brosiectau	97
Cydweithredu Tiriogaethol a Thrawswladol	127
Allbynnau a Chanlyniadau	140
Atodiad A: Enghreifftiau o brosiectau a gweithgareddau a allai dderbyn cymorth drwy weithredu LEADER	

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn cynnwys gwybodaeth i aelodau Grwpiau Gweithredu Lleol (LAGs) LEADER a sefydliadau, busnesau ac unigolion a all fod am gymryd rhan mewn gweithgareddau neu brosiectau a gefnogir drwy fesur LEADER Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020.

2. Mae'r canllawiau hyn yn ategu dogfen ganllawiau'r Strategaeth Datblygu Lleol (LDS) drwy egluro agweddau fel gweithgareddau cymwys, gwariant cymwys a sut y bydd LAGs LEADER yn rheoli'r trefniadau i ddatblygu a chefnogi gweithgareddau yn eu hardaloedd LAG.

3. Mae grwpiau LAG LEADER yn gyfrifol am ddatblygu'r LDS sy'n nodi'r cyfleoedd a'r heriau yn eu hardaloedd ac yn egluro'r camau y mae'n rhaid iddynt eu rhoi ar waith i fanteisio ar y cyfleoedd a rheoli rhai o'r heriau.

4. Mae tasgau LAG LEADER yn Erthygl 34 o Reoliad y Comisiwn Ewropeaidd 1303 - 2013 (Rheoliad Darpariaethau Cyffredin) ac yn cynnwys y canlynol:

    - "meithrin gallu gweithredwyr lleol i ddatblygu a gweithredu gweithrediadau gan gynnwys meithrin eu gallu i reoli prosiectau;
    - llunio gweithdrefn ddethol nad yw'n gwahaniaethu ac sy'n dryloyw a meini prawf gwrthrychol ar gyfer dethol gweithrediadau, sy'n osgoi gwrthdaro buddiannau, sicrhau bod o leiaf 50% o'r pleidleisiau mewn penderfyniadau dethol yn cael eu bwrw gan bartneriaid nad ydynt yn awdurdodau cyhoeddus, ac yn caniatáu dewis drwy weithdrefn ysgrifenedig;
    - sicrhau cydlyniad â'r LDS a arweinir gan y gymuned wrth ddewis gweithrediadau, drwy flaenoriaethu'r gweithrediadau hynny yn unol â'u cyfraniad at gyflawni amcanion a thargedau'r strategaeth honno;
    - paratoi a chyhoeddi galwadau am gynigion neu weithdrefn cyflwyno prosiect barhaus, gan gynnwys diffinio meini prawf dethol;
    - derbyn ac asesu ceisiadau am gymorth;
    - dewis gweithrediadau a gosod swm y cymorth a, lle y bo'n berthnasol, cyflwyno'r cynigion i'r corff sy'n gyfrifol am ddilysu cymhwysedd yn derfynol cyn ei gymeradwyo;
    - monitro gweithrediad yr LDS a arweinir gan y gymuned a'r gweithrediadau a gefnogir a chynnal gweithgareddau gwerthuso penodol sy'n gysylltiedig â'r strategaeth honno".

5. Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn er gwybodaeth yn unig, ac maent yn cynnwys esboniad manylach o brif Reoliadau'r UE, rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol a deddfwriaeth ddomestig Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r Nodiadau hyn yn ddehongliad diffiniol o'r fframweithiau cyfreithiol hynny. Noder y gall y rheolau manwl ar gyfer cymhwysedd gweithgareddau a/neu wariant newid gydol cyfnod y Rhaglen Datblygu Gwledig.

6. Mae cyngor a chanllawiau ar LEADER ar gael yn y lle cyntaf gan y Cyrff Gweinyddol sy'n cefnogi pob LAG LEADER. Nodir eu manylion cyswllt yn yr adran nesaf.

7. Mae llawer o wybodaeth am fentrau rhaglenni LEADER olynol o 1994 tan heddiw ar gael ar y Rhyngrwyd. Mae gan y rhan fwyaf o grwpiau LEADER ledled Ewrop wefannau sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am y prosiectau a'r mentrau gwahanol sydd wedi'u rhoi ar waith mewn llawer iawn o gymunedau.

8. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn darparu ffynonellau cyfeirio da iawn hefyd, gan gynnwys Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop (ENRD) – gweler y ddolen isod;

   http://enrd.ec.europa.eu/enrd-static/en/home-page_en.html

9. Yr LDS yw'r ddogfen allweddol ar gyfer pob ardal LAG LEADER. Mae'n cyflwyno, mewn fformat cyson, esboniad manwl am yr ardal; dadansoddiad o'r ardal drwy asesiad SWOT; cyfres o nodau ac amcanion ar gyfer yr ardal a chynigion ar gyfer gweithgareddau neu fentrau a fyddai'n cyflawni'r nodau ac amcanion.

10. Adolygir yr LDS o leiaf unwaith y flwyddyn gydol cyfnod y Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae'n rhaid i'r LDS ategu yn hytrach na dyblygu amcanion polisi strategol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac mae'n rhaid iddi gyfrannu at flaenoriaethau Ewropeaidd a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

11. Mae'r LAG LEADER yn cyflwyno'r LDS i Llywodraeth Cymru ynghyd â dogfennau ategol fel gweithgareddau arfaethedig, gwariant arfaethedig fesul blwyddyn, rhagolygon ar gyfer allbynnau a chyflawniadau. Mae'r dogfennau LDS sy'n cael eu cyflwyno yn cael eu hasesu gan bwyllgor ac mae'n rhaid iddynt fodloni meincnod ansawdd.

12. Mae'n rhaid i Gylch Gorchwyl y LAG nodi sut y caiff ei drefniadau llywodraethu corfforaethol ei hun eu rhoi ar waith a'u rheoli, a sut y cyflawnir swyddogaethau gweinyddol i gefnogi'r LAG. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar wahân gan Gorff Gweinyddol pob LAG (gweler y manylion cyswllt yn yr adran nesaf).

13. Bydd pob LAG LEADER yn gyfrifol am bedair cronfa ariannol a reolir ar wahân, a fydd yn galluogi'r LAG i'w reoli ei hun, cyflawni swyddogaethau animeiddio a hwyluso ledled ardal y LAG a chefnogi'r gwaith o weithredu gweithgareddau LEADER.

14. Y pedair cronfa arian yw:

    i. Costau Rhedeg;
    ii. Animeiddio;
    iii. Gweithredu LEADER;
    iv. Cydweithredu.

15. Bydd y Costau Rhedeg yn cwmpasu gweithgareddau prif strwythurau rheoli Corff Gweinyddol y LAG LEADER ynghyd â chostau sylfaenol fel swyddfeydd, cysylltiadau TGCh a'r defnydd ohonynt, staff craidd a'u costau teithio ac unrhyw wariant allweddol arall sydd ei angen i'r LAG weithredu'n effeithiol.

16. Bydd animeiddio'n cwmpasu'r prif weithgareddau animeiddio, hwyluso a meithrin gallu yn ardal y LAG i helpu i droi syniadau yn brosiectau ymarferol. Yn bennaf, bydd hyn yn cynnwys costau staff, costau teithio, y costau o drefnu cyfarfodydd a dod â phobl at ei gilydd a, lle bo angen, cymorth neu ymgynghori technegol arbenigol.

17. Gweithredu LEADER yw'r brif gronfa arian ar gyfer mentrau penodol a mentrau â ffocws sydd i'w datblygu a'u gweithredu er mwyn cyflawni amcanion yr LDS. Gall gweithgareddau gael eu rhoi ar waith drwy amrywiaeth o bartneriaid prosiect, sefydliadau allanol, grwpiau o bobl mewn cymunedau (daearyddol neu thematig) neu gan y Corff Gweinyddol ar ran y LAG ei hun.

18. Cyllid LEADER – Dyraniad Dangosol y gyllideb

    Ar gyfer Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020 bydd y gyllideb ar gyfer y mesur LEADER yn cael ei dyrannu i LAGs cymeradwy drwy ddefnyddio Methodoleg Dyraniad Dangosol.

    Bydd pob LAG yn derbyn dyraniad craidd o £500,000, sef yr isafswm sydd ei angen i gefnogi ardal LAG ar sail profiadau rhaglen 2007-2013.

Bydd pob LAG yn derbyn dyraniad ychwanegol ar sail cyfrif dosraniad wedi'i bwysoli sy'n ystyried dau ffactor:

i. pwysoliad 75% yn seiliedig ar boblogaeth wledig y wardiau cymwys (100% o boblogaeth wardiau gwledig a 30% o boblogaeth wardiau gwasanaeth – data Cyfrifiad 2011);
ii. pwysoliad 25% yn seiliedig ar deneurwydd poblogaeth yn y wardiau cymwys (mewn wardiau gwledig, poblogaeth yr aneddiadau lleiaf mewn ardaloedd 'llai tenau eu poblogaeth' a phwysoliad dwbl ar gyfer poblogaeth yr aneddiadau lleiaf yn yr ardaloedd 'teneuaf eu poblogaeth' – diffiniadau Llywodraeth Cymru/Swyddfa Ystadegau Gwladol, data Cyfrifiad 2011).

Bydd y dyraniad hwn yn cwmpasu cyfanswm llawn cyllideb y mesur LEADER, a bydd yn para gydol oes Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020, ond mae'n amodol ar weithredu'r LDS yn foddhaol.

19. MANYLION CYSWLLT CYRFF GWEINYDDOL Y LAGs LEADER

Abertawe
Ms Victoria Thomson
victoria.thomson@swansea.gov.uk
Partneriaeth Datblygu Gwledig Abertawe
Cyngor Dinas a Sir Abertawe Heol Ystumllwynarth
Abertawe
SA1 3SN

Bro Morganwg
Ms Nicola Sumner-Smith
NSumner-Smith@valeofglamorgan.gov.uk
Cymunedau Gwledig Creadigol
Grŵp Gweithredu Lleol Bro Morgannwg
Cyngor Bro Morgannwg
Yr Hen Neuadd Y Stryd Fawr, Y Bont-faen
Bro Morgannwg
CF71 7AH

Caerffilli
Mr Kevin Eadon-Davies
eadonk@caerphilly.gov.uk
Grŵp Gweithredu Lleol Caerffili a Blaenau Gwent Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
D/O Pontllanfraith House
Pontllan-fraith
Coed Duon
NP12 2YW

Castell-nedd Port Talbot
Ms Nicola Bray
n.s.bray@npt.gov.uk
Adfywio Castell-nedd Port Talbot (Tîm RDP)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Canolfan Tir Morfa, Marine Drive
Port Talbot
SA12 7NN

Ceredigion
Meleri Richards
Meleri.richards@ceredigion.gov.uk
Cynnal y Cardi
Cyngor Sir Ceredigion Neuadd Cyngor Ceredigion Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

Conwy
Iwan Morris
iwan.g.morris@conwy.gov.uk
Grŵp Gweithredu Lleol Conwy
RDP Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Glasdir
Plas Yn Dre, Llanrwst
Conwy
LL32 0DF

Gwynedd
Nia Wyn Arfon
nia@mentermon.com
Grŵp Gweithredu Lleol Gwynedd
Menter Môn Cyf.
Swyddfa Annog
146 Stryd Fawr, Porthmadog
Gwynedd
LL49 9NU

Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf
Mr Harri Evans
harri.evans@Merthyr.gov.uk
Grŵp Gweithredu Gwledig Lleol Cwm Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Uned 5, Parc Busnes Triangle Pentre-bach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ

Pen-y-bont ar Ogwr
Ms Sandra Lopes
sandra.lopes@bridgend.gov.uk
Grŵp Gweithredu Lleol Pen-y-bont (Reach) Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Cefn Gwlad a'r Rhaglen Datblygu
Gwledig Swyddfeydd y Cyngor
Angel Street
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Powys
Mrs Louise Nicholson
rdp@powys.gov.uk
Grŵp Gweithredu Lleol Un Powys
Cyngor Sir Powys
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Sir Benfro
Mr Iwan Thomas
iwant@planed.org.uk
Arwain Sir Benfro
(PLANED) Pembrokeshire Local Action Network for Enterprise & Development Ltd
Yr Hen Ysgol, Heol yr Orsaf Arberth
Sir Benfro
SA67 7DU

Sir Ddinbych
Ms Lowri Owain / Adam Bishop
Lowri.Owain@Cadwynclwyd.co.uk / adam.bishop@cadwynclwyd.co.uk
Cadwyn Clwyd
Cyfyngedig
Llys Clwyd
Parc Busnes Lôn Parcwr Rhutun
Sir Ddinbych
LL15 1NJ

Sir Fynwy a Chasnewydd
Mr Michael Powell
MichaelPowell@monmouthshire.gov.uk
Cyngor Sir Fynwy
@Innovation House, Parc Busnes Cymru 1
Magwyr
NP26 3DG

Sir Gaerfyrddin
Ms Rhian Phillips / Mared Pemberton
mrphillips@carmarthenshire.gov.uk / MEPemberton@carmarthenshire.gov.uk
Grŵp Gweithredu Lleol Sir Gâr - Grŵp Cefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin
Canolfan Datblygu Busnes Gwledig
Nantyci
Caerfyrddin
SA33 5DR

Sir y Fflint
Ms Lowri Owain / Adam Bishop
Lowri.Owain@Cadwynclwyd.co.uk / adam.bishop@cadwynclwyd.co.uk
Cadwyn Clwyd
Cyfyngedig
Llys Clwyd
Parc Busnes Lôn Parcwr, Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1NJ

Torfaen
Ms Nikki Williams
nikki.williams@torfaen.gov.uk
Grŵp Gweithredu Lleol Torfaen – Create
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Torfaen Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

Wrecsam
Ms Lowri Owain / Adam Bishop
Lowri.Owain@Cadwynclwyd.co.uk / adam.bishop@cadwynclwyd.co.uk
Cadwyn Clwyd
Cyfyngedig
Llys Clwyd
Parc Busnes Lôn Parcwr, Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1NJ

Ynys Môn
Ms Sioned Morgan
sioned@mentermon.com
Partneriaeth Gwledig Môn Rural Partnership Menter Môn Cyf
Neuadd y Dref Sgwâr Bulkeley
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7LR

AMCANION STRATEGOL A THEMATIG

20. Mae'n rhaid i bob prosiect a gefnogir drwy Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (Cronfeydd ESI) gan gynnwys y mesur LEADER wneud cyfraniad at gyflawni un amcan polisi strategol neu amcan thematig neu fwy, ac mae hyn yn cynnwys themâu trawsbynciol ar lefel rhaglen. Gall prosiectau gyfrannu at sawl amcan o'r fath, ac mae'n rhaid adrodd ar y cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at gyflawni'r amcanion wrth gyflwyno pob cais am grant.

21. Mae'n rhaid i weithgareddau o dan y mesur LEADER ymdrin ag o leiaf un o Feysydd Ffocws canlynol yr rhaglen.

O dan Erthygl 5 o Reoliad y Comisiwn Ewropeaidd 1305 / 2013 yn ymwneud â chymorth ar gyferdatblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, mae 18 o feysydd ffocws wedi'u nodi o dan bob un o'r chwe blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer datblygu gwledig.

1. Meithrin trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth ac ardaloedd gwledig, gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:
    a) meithrin arloesi a'r sylfaen wybodaeth mewn ardaloedd gwledig;
    b) cryfhau'r cysylltiadau rhwng amaethyddiaeth a choedwigaeth ac ymchwil ac arloesi;
    c) Meithrin dysgu gydol oes a hyfforddiant galwedigaethol yn y sector amaethyddiaeth a'r sector coedwigaeth.

2. Gwneud pob math o amaethyddiaeth yn fwy cystadleuol a gwneud ffermydd yn fwy hyfyw, gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:
    a) hwyluso ailstrwythuro ffermydd sy'n wynebu problemau strwythurol mawr, yn enwedig ffermydd sy'n chwarae rhan fach yn y farchnad, ffermydd sy'n ymateb i ofynion y farchnad mewn sectorau penodol a ffermydd y mae angen iddynt arallgyfeirio'n amaethyddol;
    b) hwyluso'r ffordd i'r genhedlaeth newydd ymuno â'r sector amaethyddol.

3. Hyrwyddo trefniadaeth y gadwyn fwyd a rheoli risgiau mewn amaethyddiaeth, gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:
    a) integreiddio'n well gynhyrchwyr cynradd yn y gadwyn fwyd drwy gynlluniau ansawdd, hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol a chylchoedd cyflenwi byr, grwpiau cynhyrchwyr a sefydliadau cydadrannol;
    b) helpu i reoli risg ar ffermydd.

4. Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth, gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:
    a) adfer a gwarchod bioamrywiaeth, gan gynnwys mewn ardaloedd Natura 2000 a ffermydd sydd o werth mawr i natur, a chyflwr tirweddau Ewrop;
    b) gwella'r dulliau a ddefnyddir i reoli dŵr;
    c) gwella dulliau rheoli pridd.

5. Hyrwyddo defnydd effeithiol ar adnoddau a chefnogi'r symudiad at economi carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd yn y sector amaethyddiaeth, y sector bwyd a'r sector coedwigaeth, gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:
    a) sicrhau bod y diwydiant amaethyddol yn defnyddio dŵr yn fwy effeithlon;
    b) sicrhau bod y diwydiant amaethyddol a'r diwydiant prosesu bwyd yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon;
    c) hwyluso cyflenwi a defnyddio ynni adnewyddadwy, isgynhyrchion, gwastraff, gweddillion a deunyddiau crai eraill nad ydynt yn fwyd at ddibenion y fio–economi;
    d) lleihau gollyngiadau ocsid nitraidd a methan yn sgil amaethyddiaeth;
    e) Meithrin dal a storio carbon ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth.

6. Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig, gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:
    a) hwyluso arallgyfeirio, creu a datblygu mentrau bach newydd a chreu swyddi;
    b) meithrin datblygiadau lleol mewn ardaloedd gwledig;
    c) ei gwneud yn haws i bobl gael gafael ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ardaloedd gwledig, a'i gwneud yn haws iddynt ei defnyddio a gwella'i hansawdd.

22. Mae'n rhaid i weithgareddau o dan LEADER fod â chysylltiad tebyg ag un o bum thema LEADER ar gyfer Cymru:

    1. Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol;
    2. Hwyluso datblygu cyn fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr;
    3. Ymchwilio i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol nad ydynt yn statudol;
    4. Ynni adnewyddadwy ar lefel y Gymuned;
    5. Gwneud y gorau o dechnoleg ddigidol.

23. Mae'n rhaid i weithgareddau o dan LEADER ymdrin hefyd ag un neu fwy o nodau ac amcanion yr LDS LEADER perthnasol.

24. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r prosiectau ymdrin ag un neu fwy o'r Themâu Trawsbynciol lle bo hynny'n briodol yng nghyd-destun y prosiect, ac ymdrin â'r gweithgareddau y disgwylir iddynt gael eu rhoi ar waith a'r allbynnau neu'r canlyniadau disgwyliedig. Y Themâu Trawsbynciol yw:

    - Cyfle Cyfartal gan gynnwys yr Iaith Gymraeg;
    - Datblygu Cynaliadwy;
    - Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.

GWEITHGAREDDAU CYMWYS

25. Nid oes modd llunio rhestr gynhwysfawr o weithgareddau sy'n gymwys neu a all fod yn gymwys o dan fesur LEADER Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020 gan fod cwmpas posibl LEADER mor eang. Gwneir hyn yn fwriadol er mwyn rhoi'r cyfle i LAGs ddyfeisio a datblygu gweithgareddau, mentrau a phrosiectau sy'n ceisio ymdrin â'r materion a nodwyd yn eu LDS ac er mwyn osgoi eu cyfyngu'n ormodol drwy orfodi meini prawf cymhwysedd. Nid oes modd cefnogi rhai mathau o weithgareddau o dan LEADER (gweler yr adran nesaf), ond os oes modd dangos yn glir bod y gweithgaredd yn helpu i gyflawni amcanion Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 ac amcanion yr LDS, bydd yn gymwys. Mae cyngor ar gael gan Yr Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru (UCRGC) fesul achos os oes unrhyw ansicrwydd.

26. Er nad oes unrhyw restr gynhwysfawr o weithgareddau cymwys, mae yna lawer o enghreifftiau o'r mathau o weithgareddau sy'n debygol o gael eu cyflawni drwy LEADER ar sail profiadau'r LAGs yn y Cynllun Datblygu Gwledig presennol ac o fentrau LEADER blaenorol. Mae rhai enghreifftiau yn Atodiad A, ond nid yw gweithgareddau posibl wedi'u cyfyngu i'r enghreifftiau hyn neu i enghreifftiau tebyg.

27. Animeiddio – costau refeniw ar gyfer pobl a fydd yn hyrwyddo cyfleoedd LEADER mewn ardal benodedig. Gall hyn gynnwys costau refeniw hefyd ar gyfer pobl sy'n cefnogi eraill fel busnesau, sefydliadau, clybiau, cymdeithasau ac unigolion i gynllunio a datblygu syniadau a'u troi'n brosiectau ymarferol. Mae hyn yn debygol o gynnwys costau ategol eraill fel llogi ystafelloedd, costau teithio, te a choffi, rhai mathau o waith ymgynghori allanol, adroddiadau technegol, ysgrifennu cynlluniau busnes, paratoi ffurflenni cais prosiectau, chwilio am gymorth ariannol ac ati. Bydd gweithgareddau o'r fath yn helpu i ddwyn ynghyd grwpiau o bobl mewn lleoliadau penodol neu grwpiau o bobl sydd â chysylltiadau cyffredin eraill, fel mathau o fusnesau penodol, a'u cynorthwyo i ddiffinio eu problemau eu hunain a dod o hyd i atebion ymarferol.

28. Gweithredu a chyflawni prosiectau – costau refeniw ar gyfer pobl a fydd yn rheoli ac yn cyflawni prosiectau yn uniongyrchol a/neu bobl a fydd yn cynorthwyo sefydliadau ac unigolion i gyflawni gweithgareddau na fyddai modd eu cyflawni fel arall. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fydd gan sefydliadau'r adnoddau i allu gweithio ar sail "talu", felly gallai rhywrai eraill, gan amlaf gallai'r Corff Gweinyddol sy'n cefnogi'r Grŵp Gweithredu Lleol drefnu i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau ar ei ran ar yr amod fod hyn yn cydymffurfio â'r Cymorth Gwladwriaethol De-minimis (Gweler Adran 79).

29. Mentora – costau refeniw ar gyfer pobl sy'n gallu darparu mathau penodol o gymorth ar gyfer sefydliadau a grwpiau i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau a'u harbenigedd eu hunain. Mae hyn yn ffordd wahanol o ymdrin â hyfforddiant.

30. Hyfforddiant – costau refeniw ar gyfer datblygu a darparu cyrsiau mwy ffurfiol ar gyfer grwpiau o bobl, er y gall rhai eitemau bach o gyfarpar ddod o fewn cwmpas hyfforddiant. Gall hyfforddiant o'r fath gael ei ddarparu mewn ystafell ddosbarth neu ddarlithfa ffurfiol, ond nid o reidrwydd. Cynhelir rhyw fath o asesiad sgiliau cyn cyflwyno'r cwrs i bennu testun yr hyfforddiant a'r deilliannau dysgu.

31. Astudiaethau Dichonoldeb – costau refeniw ar gyfer cyfuniad o amser staff a chostau ymgynghori i wneud gwaith ymchwil cefndir yn ymwneud â phroblem neu fater penodol ac ysgrifennu gwerthusiad cynhwysfawr o'r materion, yr atebion gwahanol, y costau ariannol, dadansoddiad manwl o'r risgiau ac argymhellion ar gyfer y camau nesaf. Ni ddylai astudiaeth ddichonoldeb ddod i'r casgliad bod angen astudiaeth arall.

Dylai astudiaeth ddichonoldeb gynnwys y canlynol o leiaf ar ôl ei chwblhau:

- Disgrifiad manwl o'r mater y mae unrhyw gynnig dilynol yn debygol o fynd i'r afael ag ef, gan gyfeirio'n benodol at y rhanddeiliaid neu'r darpar randdeiliaid a'u gofynion. Mae'n rhaid i'r astudiaeth hefyd ddangos sefyllfa bresennol yr ymgeisydd mewn perthynas â'r mater a'r hyn y disgwylir iddo ei wneud ar ddiwedd y prosiect;
- Manylion y camau sydd i'w rhoi ar waith o dan y cynnig, gan gynnwys yr holl eitemau y gwneir cais am grant amdanynt;
- Pam y mae angen gweithredu yn y modd hwn yn y busnes, y sefydliad neu'r sector dan sylw;
- Esboniad o fanteision y cynnig, yn enwedig yn yr hirdymor;
- Yn achos busnes neu sefydliad newydd arfaethedig, y rhesymau pam nad oes modd defnyddio strwythurau sydd eisoes yn bodoli;
- Rhagamcan llif arian tair blynedd ar gyfer y cynnig, sy'n dangos sut y caiff ei weithredu a'i ariannu;
- Cynllun busnes tair blynedd ar gyfer y cynnig;
- Argymhelliad clir yn ymwneud â dichonoldeb tebygol y prosiect.

32. Prosiectau peilot – gweithgareddau bach â chyfyngiad amser sy'n ceisio profi cysyniad neu roi cynnig ar dechneg arloesol i ganfod a oes modd troi syniad yn brosiect ymarferol ar raddfa fawr. Mae'n rhaid i'r holl wybodaeth sy'n deillio o brosiect peilot fod ar gael yn hwylus fel bod eraill o'r tu allan i'r sefydliad neu'r LAG yn gallu gweld yr hyn sydd wedi'i wneud a sut y mae'n gweithio.

33. Costau teithio a chostau cynhaliaeth – mae costau refeniw ar gyfer pobl fel swyddogion prosiect, staff eraill, ymgynghorwyr a phobl sy'n cymryd rhan yn y prosiect yn gymwys. Dylid dewis y modd teithio mwyaf rhesymol yn ôl yr angen, a gall gynnwys llogi car am ddiwrnod, costau milltiredd, cost trafnidiaeth gyhoeddus, tocynnau awyrennau ac unrhyw gostau tebyg eraill, a chostau rhesymol llety dros nos a phrydau bwyd lle bo modd cyfiawnhau hynny.

34. Gwerthuso – un o ganlyniadau allweddol prosiectau a gweithgareddau a gyflenwir drwy LEADER yw dysgu gwersi a chofnodi profiadau sy'n deillio o weithgareddau a phrosiectau sydd â'r nod o helpu i lunio rhaglenni a phrosiectau'r dyfodol. Gall LEADER dalu am werthusiad annibynnol, allanol o'r prosiectau ac am gostau gweithredu LAG a'i Gorff Gweinyddol.

35. Mae gwariant cyfalaf yn gymwys o dan Gymorth Gwladwriaethol De-minimis (Gweler Adran 79).

COSTAU CYMWYS

36. Nid oes modd diffinio gwariant sy'n gymwys o dan y mesur LEADER. Mae rhai costau penodol sy'n anghymwys wedi'u rhestru yn yr adran isod.

37. Mewn egwyddor, mae unrhyw wariant yn gymwys os yw'n angenrheidiol i helpu i roi gweithgaredd neu brosiect ar waith a fydd yn cyfrannu at gyflawni amcanion yr LDS.

COSTAU ANGHYMWYS

38. Mae'r eitemau neu'r mathau o wariant canlynol yn **anghymwys** o dan y mesur LEADER:

- prynu stoc masnachu;
- prynu tir;
- prynu adeiladau;
- prynu ceir, faniau, beiciau modur, beiciau a chludiant personol arall o unrhyw fath (at ba bynnag diben);
- prynu cerbydau ar gyfer trafnidiaeth allanol (fel lorïau, bysiau, faniau, bysiau mini neu unrhyw gerbyd arall a ddefnyddir i gludo nwyddau neu bobl);
- unrhyw waith ffisegol ar y safle neu wariant arall cyn dyddiad dechrau'r prosiect heb gymeradwyaeth ysgrifenedig y grantwr ymlaen llaw;
- gwaith dros dro nad oes ganddo gysylltiad **uniongyrchol** â'r prosiect;
- costau cynnal a chadw adeiladau, offer neu gyfarpar sydd eisoes yn bodoli;
- disodli eitem ag eitem arall debyg;
- costau sy'n gysylltiedig â chontract lesio fel elw'r lesydd, costau ariannu llog, gorbenion a chostau yswiriant;
- y gost o drefnu benthyciadau, TAW a threthi eraill y gall y buddiolwr eu hadennill, costau gweinyddol a chostau staff neu iawndal sy'n cael ei dalu i drydydd partïon ar gyfer difeddu, ac ati;
- gorbenion wedi'u dyrannu neu eu dosrannu ar gyfraddau sy'n sylweddol uwch na'r cyfraddau ar gyfer costau tebyg dulliau cyflenwi cymharol;
- gwariant tybiannol;
- taliadau ar gyfer gweithgarwch o natur wleidyddol;

- dibrisio, amorteiddio a gostyngiad yng ngwerth asedau a brynwyd gyda chymorth grant Ewropeaidd;
- darpariaethau;
- atebolrwydd amodol;
- hapddigwyddiadau;
- difidendau ar gyfer cyfranddalwyr;
- taliadau llog (ac eithrio o dan gynllun Cymorth Gwladwriaethol cymeradwy);
- taliadau gwasanaeth sy'n deillio o lesau cyllid, hurbwrcas a threfniadau credyd;
- costau sy'n deillio o oedi cyn talu credydwyr;
- costau sy'n gysylltiedig â dirwyn cwmni masnachol i ben;
- taliadau ar gyfer pensiynau nad ydynt yn cael eu hariannu;
- iawndal am golli swydd;
- dyledion drwg sy'n deillio o fenthyciadau i weithwyr cyflogedig, perchnogion, cyfarwyddwyr partneriaid, gwarantwyr, cyfranddalwyr neu unigolyn sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain;
- taliadau ar gyfer anrhegion a rhoddion;
- adloniant personol (gan gynnwys alcohol);
- dirwyon a chosbau statudol;
- dirwyon ac iawndal troseddol;
- treuliau cyfreithiol yn ymwneud â chyfreitha;
- TAW adenilladwy.

Mae cyngor ar gael gan Rhwydwaith Gwledig Cymru (URhC) fesul achos os oes ansicrwydd.

CANLLAWIAU YCHWANEGOL AR GOSTAU REFENIW

Costau Cyflogau Staff

39. Mae costau cyflogau staff yn gymwys ar gyfer pobl sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at animeiddio, gweithredu a/neu gyflawni prosiect, yn llawn-amser neu'n rhan-amser. Gall costau staff gynnwys cyflog gros, cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr, ac o bosibl costau pensiwn cyflogwyr os oes cynllun pensiwn wedi'i sefydlu sy'n cynnwys pob aelod o staff.
40. Mae costau rhesymol sy'n deillio o'r contract cyflogaeth yn gymwys, gan gynnwys cynnydd disgwyliedig mewn graddau neu raddfeydd cyflog.

41. Dylid defnyddio dull dosrannu priodol i gyfrifo costau staff ar gyfer pobl sy'n gweithio ar fwy nag un prosiect.

42. Mae costau recriwtio staff, gan gynnwys hysbysebu, yn gymwys.

43. Gall gwariant adleoli fod yn gymwys mewn amgylchiadau eithriadol, ond mae'n rhaid i LAGs gael cymeradwyaeth ysgrifenedig RPW ymlaen llaw cyn dod i gytundeb ag unrhyw ddarpar weithiwr cyflogedig.

Tâl Absenoldeb Salwch neu Dâl Mamolaeth

44. Gall tâl absenoldeb salwch neu dâl mamolaeth fod yn gymwys os yw'n cyd-fynd â pholisi staff y sefydliad neu os yw wedi'i gynnwys yng nghontract cyflogaeth yr unigolyn. Mae tâl salwch statudol neu dâl mamolaeth statudol sy'n cael ei adennill o CThEM yn anghymwys, hyd yn oed os nad y LAG sy'n ei adennill mewn gwirionedd. Dylid gosod y gwerth yn erbyn cyfanswm y costau staff y gwneir cais amdano.

45. Gall costau sy'n gysylltiedig â darparu staff cyflenwi i wneud gwaith staff sy'n absennol yn hirdymor oherwydd salwch neu staff ar absenoldeb mamolaeth gael eu hystyried yn gostau prosiect cymwys. Fodd bynnag, ni fydd Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw gyllid LEADER ychwanegol arall. Bydd RPW yn ystyried y costau hyn fesul achos.

Costau Dileu Swyddi

46. Gall gwariant ar ddileu swyddi gael ei ystyried yn gymwys fesul achos lle mae pob un o'r meini prawf canlynol yn berthnasol:
    a) mae staff wedi'u cyflogi ar brosiect ac mae costau'r cyflogau wedi'u cydariannu drwy'r prosiect ac mae swyddi'r staff yn cael eu dileu;
    b) lle mae gofyniad statudol i dalu costau dileu swyddi o dan gyfraith Cyflogaeth y DU;
    c) mae taliadau dileu swyddi'n cael eu gwneud yn unol â darpariaeth a throthwyon statudol.

47. Mae taliadau ychwanegol neu arbennig sy'n rhan o'r pecyn dileu swyddi ond sy'n cael eu gwneud yn ôl disgresiwn y cyflogwr ar ben y gofynion statudol yn anghymwys.

48. Mae taliadau diswyddo gwirfoddol yn anghymwys lle nad yw'r swydd yn cael ei dileu ac y bydd yn cael ei llenwi.

49. Dylai gwariant cymwys ar gostau diswyddo gael ei gyfrifo pro rata yn ôl hyd y

cyfnod y mae rhywun yn gweithio ar y prosiect ac oriau'r contract.

50. Mae'n rhaid i staff sydd wedi'u secondio i brosiect a ariannwyd gan yr UE, h.y. staff nad ydynt yn perthyn i'r prosiect newydd, fod wedi'u cyflogi ar y prosiect am o leiaf ddwy flynedd er mwyn bod yn gymwys. Fodd bynnag, mae Telerau ac Amodau'r sefydliad sy'n noddi'r prosiect yn berthnasol yn aml o safbwynt rhwymedigaethau diswyddo a chontractau, a gallant ddisodli darpariaethau'r adran hon.

51. Lle mae sefyllfa diswyddo yn codi, mae gan bob gweithiwr cyflogedig hawl i gyfnod hysbysiad statudol fel a ganlyn:
    - leiaf wythnos o rybudd os yw wedi'i gyflogi rhwng mis a dwy flynedd;
    - wythnos o rybudd am bob blwyddyn os yw wedi'i gyflogi rhwng dwy a 12 mlynedd;
    - 12 wythnos o rybudd os yw wedi'i gyflogi am 12 mlynedd neu fwy.

52. Mewn rhai achosion, mae'r cyflogwr a'r gweithiwr cyflogedig yn hepgor y cyfnod hysbysiad statudol, gan roi Taliad Yn Lle Rhybudd (PILON). Mae PILON yn daliad diswyddo anstatudol, a bydd ond yn daladwy i weithiwr cyflogedig pan fydd yn rhan o bolisi AD / staff safonol y sefydliad sy'n cyflogi'r staff, neu pan fydd pob contract cyflogaeth unigol yn cynnwys cymal 'taliad yn lle rhybudd'

53. Mae'n rhaid i'r sefydliad gofio na all costau cymwys y prosiect fynd dros lefel trothwyon statudol y DU. Nid yw unrhyw daliadau neu gyfnodau hysbysiad sy'n rhagori ar y terfynau statudol yn gymwys, a bydd angen i'r sefydliad sy'n cyflogi dalu am y rhain.

Costau Teithio a Chynhaliaeth

54. Dim ond costau Teithio a Chynhaliaeth sy'n gysylltiedig â rhoi'r prosiect ar waith sy'n gymwys, a rhaid iddynt gydymffurfio â chanllawiau CThEM ar gostau teithio busnes gweithwyr cyflogedig.

55. Mae'n rhaid i lwfansau dyddiol, costau llety ac unrhyw gostau cynhaliaeth gydymffurfio â pholisi safonol y sefydliad sy'n cyflogi ar gynhaliaeth. Fodd bynnag, nid yw costau cysylltiedig ar gyfer eitemau fel diodydd alcohol yn gymwys.

Costau Hyfforddi Staff

56. Mae costau hyfforddi staff sy'n gysylltiedig â chaffael gwybodaeth arbenigol

i alluogi staff i roi gweithgareddau a/neu brosiectau arfaethedig ar waith yn effeithiol yn gymwys.

Taliadau eraill i staff

57. Mae'r canlynol yn **gymwys** os ydynt yn **drethadwy**
    - Taliadau crèche neu ofal plant

58. Mae'r canlynol yn **gymwys** os ydynt wedi'u cynnwys yn y wybodaeth recriwtio ac yng nghontract cyflogaeth y gweithiwr cyflogedig ar ddechrau'r contract:
    - Bonws terfynol nad yw'n gysylltiedig â pherfformiad o hyd at gyflog gros tri mis

59. Mae'r canlynol yn **anghymwys**:
    - Taliadau bonws neu lwfansau di-dreth eraill;
    - Taliadau diswyddo mawr;
    - Taliadau eithriadol i weithwyr cyflogedig sy'n dechrau swyddi;
    - Darpariaeth hawliau pensiwn eithriadol neu anghyffredin;
    - Taliadau bonws sy'n gysylltiedig â pherfformiad;
    - Benthyciadau;
    - Ceir cwmni;
    - Cynlluniau gofal iechyd personol;
    - Unrhyw daliadau neu ysgogiadau eraill i weithwyr cyflogedig o natur eithriadol nad ydynt yn cael eu hegluro yn y wybodaeth recriwtio a/neu yng nghontract cyflogaeth y gweithiwr cyflogedig.

Ffioedd Proffesiynol / Ymgynghori a Thaliadau i Isgontractwyr

60. Mae gwariant ar gyfer gwaith a gwblhawyd gan ymgynghorydd neu is-gontractwr yn gymwys os yw'r gwaith yn hanfodol i roi'r gweithgaredd neu'r prosiect ar waith. Gallai ffioedd ymgynghori gynnwys gwasanaethau cyfreithiol, technegol, cyfrifyddu ac archwilio sydd eu hangen i roi'r gweithgaredd prosiect LEADER ar waith.

61. Mae'n rhaid i'r holl ffioedd ymgynghori a chostau isgontractwyr gael eu caffael yn gywir yn unol ag arferion da, y rheolau a'r rheoliadau caffael perthnasol neu ofynion tendro cystadleuol.

Marchnata a Hyrwyddo

62. Gall gwariant cymwys gynnwys costau yn ymwneud ag agweddau priodol a

chymesur ar f archnata gweithgareddau sy'n gysylltiedig â LEADER yn benodol, er enghraifft, cynllunio a chreu deunyddiau marchnata, hwyluso cynadleddau a seminarau priodol, ac ymgyrchoedd hysbysebu wedi'u targedu ynghylch gweithgareddau LEADER a/neu'r LAG ei hun.

Mae gwariant yn ymwneud â gofynion yr UE i hysbysebu a darparu gwybodaeth am brosiectau a Rhaglenni mewn ffordd effeithiol yn gymwys.

Lesio

63. Mae lesio yn debygol o fod yn elfen o weithgareddau cyflawni LEADER, ac mae'n gymwys ar yr amod bod y meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:
    - defnyddio'r cyfarpar, yr adeiladau neu'r tir mewn ffordd sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chyflawni'r gweithgaredd LEADER, ac yn angenrheidiol i'r gwaith;
    - ni fydd yr uchafswm sy'n gymwys yn fwy na gwerth yr ased sy'n cael ei lesio ar y farchnad;
    - nid yw tir ac eiddo sy'n cael eu lesio yn cael eu defnyddio at ddibenion amaethyddiaeth, coedwigaeth neu bysgodfeydd;
    - os yw'r contract lesio yn mynd y tu hwnt i gyfnod y contract, dim ond cyfran y les sy'n berthnasol i amserlen y prosiect sy'n gymwys;
    - nid yw costau sy'n gysylltiedig â'r contract lesio, gan gynnwys treth, elw'r lesydd, costau ail-gyllido llog, gorbenion, taliadau gwasanaeth a thaliadau yswiriant yn wariant cymwys;
    - os nad yw'r gwariant lesio yn ymwneud â'r prosiect a ariennir gan LEADER yn unig, mae'n rhaid dosrannu costau yn briodol.

Costau Teithio a Chynhaliaeth Cyfranogwyr / Buddiolwyr

64. Mae costau teithio cyfranogwyr/buddiolwyr sydd â chysylltiad uniongyrchol â chyflawni'r gweithgaredd LEADER yn effeithiol, ac yn hanfodol ar gyfer y gwaith, yn gymwys.

Costau Cyfranogwyr / Buddiolwyr i ofalu am blant neu ddibynyddion eraill

65. Mae costau i ofalu am blant/dibynyddion cyfranogwyr/buddiolwyr tra bod y

cyfranogwr/buddiolwr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau LEADER yn gymwys.

ARIAN CYFATEBOL

66. Ar gyfer gweithgareddau a phrosiectau gweithredu LEADER, ni fydd uchafswm y cyfraniad gan y Rhaglen yn fwy nag 80% o gyfanswm y costau prosiect cymwys. Felly, rhaid i'r LAGs sicrhau o leiaf 20% o gyfanswm y costau prosiect cymwys. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn cael ei ddiffinio fel arian cyfatebol yng nghyd-destun mesur LEADER.

67. Rhaid dod o hyd i o leiaf 20% o arian cyfatebol ar gyfer pob gweithgarwch neu brosiect unigol a gefnogir gan y LAG. Pan fydd y LAG yn hawlio grant y Rhaglen Datblygu Gwledig, bydd Llywodraeth Cymru yn talu hyd at 80% o gyfanswm y costau prosiect cymwys a ddatganwyd ar gyfer pob hawliad. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r arian cyfatebol gael ei ddarparu ar gyfer pob prosiect wrth i'r prosiect hwnnw gael ei ddarparu. Gallai un prosiect ddarparu mwy o arian cyfatebol na phrosiect arall, ond rhaid i unrhyw wahaniaethau gael eu rheoli gan y LAG i sicrhau bod y swm sy'n cael ei hawlio yn gywir.

68. Gellir darparu arian cyfatebol ar ffurf arian parod neu gyfraniadau o fath arall gan y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector. Ystyr cyfraniadau o fath arall yw gwasanaethau, eitemau neu gynhyrchion a roddir i'r prosiect gan unigolyn neu sefydliad heb unrhyw drafodion ariannol. Rhaid i bob cyfraniad o fath arall a ddarperir fel arian cyfatebol ymwneud â darparu prosiect neu weithgarwch LEADER arall.

69. At ddibenion gweinyddol, mae'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn cael eu diffinio fel a ganlyn:

Y sector cyhoeddus

Mae'r sector cyhoeddus yn cynnwys unrhyw sefydliadau sy'n rhan o lywodraeth ganolog neu leol neu sydd o dan reolaeth llywodraeth ganolog neu leol. Mae hyn yn cynnwys:

- Llywodraeth Cymru;
- Awdurdodau Lleol;
- y sector addysg gyhoeddus (gan gynnwys addysg uwch ac addysg bellach);
- cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru;
- adrannau Llywodraeth y DU a'u Hasiantaethau;
- unrhyw gwmnïau dielw a sefydlwyd gan ran o lywodraeth leol neu ganolog at ddibenion darparu rhan o'i gwasanaethau neu ymarfer ei phwerau;
- cwmnïau sy'n cynnwys partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus (e.e. Awdurdodau Lleol) a'r sector preifat, lle mae cyfranddaliad y sector preifat yn llai na 50%.

Y sector preifat

- cwmnïau sy'n bwriadu gwneud elw a lle gallai'r elw hwnnw gael ei ddosbarthu;
- cwmnïau sy'n bartneriaethau rhwng corff sector preifat (h.y. cwmni sy'n dosbarthu elw fel yr amlinellir uchod) a chorff sector cyhoeddus, a lle mae cyfranddaliad y sector preifat yn 50% neu fwy).

Y trydydd sector

- endidau cyfreithiol na chaniateir iddynt ddosbarthu gwargedion i randdeiliaid neu fuddsoddwyr eraill. Yn nodweddiadol, mae'r rhain yn sefydliadau anllywodraethol â gwerthoedd yn eu llywio ac sydd yn ail-fuddsoddi eu gwargedion yn bennaf gyda'r nod o gyflawni amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol. Gall hyn gynnwys; elusennau ac ymddiriedolaethau; mentrau cymdeithasol; mentrau cydweithredol a chymdeithasau cydfuddiannol a darbodus a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol.

CANLLAWIAU YCHWANEGOL AR ARIAN CYFATEBOL O FATH ARALL

70. **Nid yw gwerthu cyfarpar neu ddarparu gwasanaethau neu gyngor am bris gostyngol yn gymwys fel arian cyfatebol o fath arall.**

71. Mae cyfraniadau o fath arall ar ffurf darparu gwaith, nwyddau, gwasanaethau, tir ac eiddo tiriog heb dalu unrhyw arian yn gymwys cyn belled â bod rheolau cymhwysedd (Cronfeydd ESI) a'r rhaglen yn cael eu bodloni a bod yr holl feini prawf canlynol yn cael eu bodloni:
    a) ni ddylai'r arian cyhoeddus a delir i'r gweithgaredd, sy'n cynnwys cyfraniadau o fath arall, fod yn fwy na chyfanswm y gwariant cymwys, ac eithrio cyfraniadau o fath arall, ar ddiwedd y gweithgaredd;
    b) ni ddylai'r gwerth a briodolir i gyfraniadau o fath arall fod yn fwy na'r costau a dderbynnir fel arfer ar y farchnad dan sylw;
    c) gall gwerth a darpariaeth y cyfraniad gael eu hasesu a'i dilysu'n annibynnol;
    d) yn achos darparu tir neu eiddo tirol, gellir gwneud taliad arian parod at ddibenion cytundeb prydles, sef swm enwol y flwyddyn nad yw'n fwy nag un uned o arian cyfredol yr Aelod-wladwriaeth;
    e) yn achos cyfraniadau o fath arall ar ffurf gwaith di-dâl, pennir gwerth y gwaith hwnnw trwy ystyried yr amser (wedi'i ddilysu) a dreuliwyd yn cyflawni'r gwaith a'r gyfradd dalu ar gyfer gwaith cyfwerth. (Gweler Adran 76).

Cyfarpar a Deunyddiau Crai

72. Gellir darparu cyfarpar a deunyddiau crai i brosiect fel math o arian cyfatebol o fath arall, ond rhaid i'r LAG sicrhau bod tystiolaeth o werth y swm sydd wedi'i ymrwymo yn cael ei chadw. Gall y dystiolaeth hon fod ar ffurf rhestr brisiau neu gatalog a gyhoeddwyd sy'n dangos y cyfarpar neu'r deunyddiau neu, ar gyfer eitemau sy'n benodol i'r prosiect, prisiad gan brisiwr cymwys annibynnol.

Ymchwil neu Waith Proffesiynol

73. Gellir darparu ymchwil neu waith proffesiynol arall i brosiect fel math o arian cyfatebol o fath arall, ond rhaid i'r LAG sicrhau bod tystiolaeth o werth y gwasanaethau sydd wedi'u darparu yn cael ei chadw. Dylai'r dystiolaeth hon gynnwys y wybodaeth ganlynol:

    - dylai rhestr brisiau wedi'i chyhoeddi ar gyfer y gwasanaethau a ddarparwyd fod ar gael;
    - dylai tystiolaeth fod ar gael i brofi bod y ffigurau hyn yn gystadleuol o

gymharu â phrisiau cystadleuwyr;
- mae angen cadw taflenni amser neu gofnodion eraill o'r amser a gyfrannwyd os yw'r gost yn defnyddio'r system hon.

Gwaith Gwirfoddol Di-dâl

74. Yn achos gwaith gwirfoddol di-dâl[1] sy'n hanfodol i ddarparu prosiect LEADER, pennir gwerth y gwaith trwy ystyried yr amser a dreulir yn cyflawni'r gwaith a'r gyfradd dalu arferol ar gyfer y gwaith. Ni fydd cyfraniad LEADER at brosiect yn fwy na chyfanswm y gwariant cymwys namyn y cyfraniad o fath arall. Yn ogystal:
    - Rhaid i'r symiau a hawlir ar gyfer y gweithgarwch hwn gael eu hawlio ar gyfradd sy'n gymesur â natur y gwaith a gyflawnir, yn hytrach na bod yn seiliedig ar gyfradd dalu arferol y gwirfoddolwr. Os yw'r gwirfoddolwr yn cyflawni yr un dyletswyddau neu ddyletswyddau tebyg fel aelod o staff cyflogedig, caniateir talu'r gwirfoddolwr ar ei gyfradd dalu arferol fel gweithiwr cyflogedig. Yn absenoldeb cyfradd dalu gymharol, mae cyfraddau derbyniol wedi'u cynnwys ym mharagraff 78.

Ni ddylid talu mwy na'r cyfraddau a amlinellir isod ar gyfer gwaith di-dâl fel arian cyfatebol o fath arall ar gyfer unrhyw brosiect;

- Byddai angen cytuno a ddylid cynnwys costau swyddogaethau mwy arbenigol a thechnegol fel arian cyfatebol o fath arall cyn i'r gweithgarwch gychwyn. Byddai disgwyl i'r prosiect gadw cyfiawnhad dogfennol clir ar gyfer y swyddogaeth arbenigol ac ar gyfer y gyfradd dalu y cytunwyd i'w defnyddio at ddibenion arian cyfatebol o fath arall;
- Mae costau ar gyfer staff a ddarperir gan sefydliad ar brosiect yn cael eu hystyried yn arian cyfatebol gwirioneddol (mae cyflogau'n dystiolaeth o hyn) ac nid yn arian cyfatebol o fath arall
- Dylai taflenni amser gael eu cadw i gadarnhau'r oriau a hawlir fel rhan o'r prosiect, a dylent gael eu llofnodi gan y gwirfoddolwr a'r cyflogwr;
- Dim ond pobl sy'n gweithredu'n gwbl wirfoddol fydd yn gymwys. Os bydd un o weithwyr cyflogedig y prosiect yn cyflawni dyletswyddau 'gwirfoddol' ychwanegol, ni fydd y rhain yn gymwys fel arian cyfatebol o fath arall.

Costau tybiannol y cytunwyd arnynt i'w defnyddio fel cyfraddau derbyniol ar gyfer gwaith gwirfoddol

75. Mae'r cyfraddau isod wedi'u darparu a'u cadarnhau gan ystadegwyr Llywodraeth Cymru ac maent yn seiliedig ar ddadansoddiadau sy'n defnyddio'r 'Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion' (ASHE), sy'n cynnwys y data diweddaraf a gyhoeddwyd Tachwedd 2016 (noder bod y cyfraddau hyn ar gyfer y DU, ac

eithrio Llundain a De-ddwyrain Lloegr).

Teitl Swydd	Cod SOC	Cyfradd Fesul Awr (£)	Cyfradd Blynyddol (£)
Gweithwyr Proffesiynol Rheoli Prosiectau Busnes ac Ariannol	2424	23.41	46,992
Gweithwyr Proffesiynol Ymchwil Busnes a Chysylltiedig	2426	18.59	35,298
Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Busnes a Chysylltiedig n.e.c.	3539	14.59	27,890
Hyfforddwyr Galwedigaethol a Diwydiannol	3563	14.76	29,150
Galwedigaethau Gweinyddol Eraill n.e.c.	4159	11.06	21,733
Crefftau Elfennol, Gweinyddu a Galwedigaethau Gwasanaeth	91 a 92	9.79	20,786

Asesu'r Prosiect a Risg

76. Efallai y bydd prosiectau sy'n cynnwys symiau sylweddol o arian cyfatebol o fath arall yn wynebu anawsterau mewn perthynas â llif arian os bydd swm neu amseru'r gweithgarwch neu'r cyfraniad o fath arall yn amrywio neu os na chaiff ei dderbyn ar amser. Rhaid i LAGs sicrhau eu bod yn darparu trywydd archwilio llawn ar gyfer unrhyw arian cyfatebol o fath arall, a rhaid i unrhyw sefydliad neu unigolyn sy'n darparu cyfraniad o'r fath ddarparu a chadw'r cofnodion angenrheidiol hefyd.

CYFRADD GRANT

77. Y gyfradd grant uchaf ar gyfer gweithgareddau neu brosiectau a gefnogir gan y LAG o dan elfen Gweithredu LEADER yw hyd at 100% o'r costau gwirioneddol a ysgwyddir ac a delir. Fodd bynnag, ni all y swm mwyaf a delir (fel arian parod) fod yn fwy na'r costau a ysgwyddir ac a delir.

78. Er enghraifft, efallai y bydd costau prosiect yn dod i £16,432

Y Grant Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020 mwyaf y gall mesur LEADER ei dalu i'r prosiect hwnnw yw £13,145.60, sef 80% o gyfanswm cost y prosiect

Ond pe bai'r prosiect yn cael ei gefnogi gan arian cyfatebol o fath arall, sef llafur di-dâl gwirfoddol gwerth £6,000, byddai'r costau gwirioneddol a ysgwyddir yn dod i £10,432

Yn y sefyllfa hon, £10,432 fyddai uchafswm grant y Rhaglen Datblygu Gwledig a fyddai'n daladwy (sy'n cynrychioli cyfradd grant o 63.5% sy'n seiliedig ar gyfanswm costau'r prosiect, gyda'r 36.5% arall yn dod o'r arian cyfatebol o fath arall, sef y llafur gwirfoddol).

CYMORTH GWLADWRIAETHOL

79. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael cymeradwyaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd i ganiatáu hyblygrwydd ar gyfer cynlluniau o dan Fesur 19 Rhaglen Datblygu Gwledig yr UE 2014-2020 i ddefnyddio rheoleiddio de-Minimis Diwydiannol ym mlynyddoedd eraill y rhaglen. Yn rhinwedd Erthygl 138 o Gytundeb Ymadael yr UE, rhaid i gynlluniau a agorwyd ac sy'n gweithredu o dan Gynllun Datblygu Gwledig 2014-20 barhau o dan reolau a rheoliadau cymorth gwladwriaethol yr UE.

Bydd cyflwyno de-Minimis Diwydiannol fel gwasanaeth Cymorth Gwladwriaethol ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER yn caniatáu i Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER barhau i gyflawni yn unol â 7 egwyddor allweddol methodoleg LEADER. Fodd bynnag, gyda darpariaeth de-Minimis Diwydiannol ar waith, bydd LEADER yn gallu rhoi cymorth i bobl a sefydliadau busnes sydd am gymryd rhan mewn gweithgarwch economaidd gan eu cyfeirio at gymorth prif ffrwd Busnes Cymru ar yr adeg briodol.

Y Fframwaith Cymorth Gwladwriaethol ar gyfer LEADER o dan y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 -2020 yw Rheoliad 1407/2013 yr UE y cyfeirir ato'n gyffredin fel Cymorth de-Minimis diwydiannol. Bydd y newid hwn i'r rhaglen yn caniatáu i LEADER gefnogi (o fewn paramedrau methodoleg LEADER) Creu Swyddi, entrepreneuriaeth a chreu microfusnesau newydd yn well. Dylai Grwpiau Gweithredu Lleol gymhwyso'r rheolau de-Minimis wrth ddyfarnu cyllid i fuddiolwyr o dan eu prosiect LEADER cymeradwy.

Cynnal cynllun cymorth de minimis - https://llyw.cymru/rhedeg-cynllun-de-minimis - Mae Atodiad 2 o atodiadau "Sut i redeg cynllun Cymorth De Minimis" ac Atodiad 2 o "Sut i ddefnyddio'r rheoliad de minimis: cyfarwyddiadau desg" yn cynnwys templed o lythyr a datganiad o gymorth de minimis a dderbyniwyd. Maent hefyd yn cynnwys datganiad de minimis y dylid ei ddyfarnu ar yr un pryd ag y rhoddir y cymorth.

Ni ellir dyfarnu cymorth De-Minimis lle byddai cyfanswm y cymorth de-Minimis a ddyfarnwyd i'r ymgymeriad dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf yn uwch na'r uchafswm o €200,000. Mae'r holl gymorth de-Minimis mewn cyfnod cyllidol o 3 blynedd yn gronnol waeth a yw'r cymorth yn Amaethyddol, Pysgodfeydd neu Ddiwydiannol. Mae gan de-Minimis amaethyddol a Physgodfeydd de-Minimis drothwyon is o €20,000 a €30,000 mewn cyfnod o 3 blynedd yn y drefn honno (ymgymeriadau yn y sector trafnidiaeth ffyrdd €100,000).

Yn yr un modd, os yw cymorth yn cael ei ystyried o dan gyfundrefn Cymhorthdal y DU, rhaid datgan cyfansymiau de-Minimis blaenorol o'r 3 blynedd ariannol ddiwethaf a'u cronni gyda'r Hawliau Lluniadu Safonol (SDR) a dderbyniwyd. Ystyrir bod SDR yn disodli cymorth de-Minimis yn uniongyrchol o dan gyfundrefn gymorthdaliadau'r DU.

Rhoi cymorth de-Minimis

Wrth roi cymorth de-Minimis, rhaid i Grwpiau Gweithredu Lleol;

- sicrhau nad yw'r dyfarniad yn torri uchafswm de-Minimis ymgymeriad dros gyfnod cyllidol o dair blynedd fel y'i diffinnir gan Erthygl 3, paragraff 2 o'r rheoliad de-Minimis (dolen allanol yn agor mewn ffenestr / tab newydd):
- rhaid i chi ofyn i'r ymgymeriad dan sylw am unrhyw gymorth de-Minimis arall y maent wedi'i gael yn ystod y ddwy flynedd ariannol bresennol a blaenorol cyn darparu unrhyw gymorth – rhaid i ddatganiad o gymorth de-Minimis a dderbyniwyd o fewn y 3 blynedd ariannol flaenorol gael ei ddarparu gan yr ymgymeriad.
- rhaid i chi hefyd roi gwybod i'r derbynnydd yn glir mai cymorth de-Minimis yr ydych yn ei roi iddynt, er mwyn iddynt gyfeirio atynt yn y dyfodol. Dylid dweud wrthynt hefyd fod yn rhaid iddynt ddatgan hyn yn y dyfodol os gofynnir iddynt wneud hynny.
- Rhaid i chi hefyd gofnodi'n ysgrifenedig yr wybodaeth a ddarperir er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol a'ch trywydd Archwilio

CYLCH GORCHWYL GRŴP GWEITHREDU LLEOL

80. Bydd Datblygu Lleol a Arweinir gan y Gymuned "yn cael ei arwain gan grwpiau gweithredu lleol sy'n cynnwys cynrychiolwyr buddiannau economaidd-gymdeithasol lleol cyhoeddus a phreifat lle nad yw awdurdodau cyhoeddus, fel y'u diffinnir yn unol â rheolau cenedlaethol, nac unrhyw grŵp budd unigol ar y lefel gwneud penderfyniadau yn cynrychioli mwy na 49% o'r hawliau pleidleisio," Rheoliad y Comisiwn 1303/2013 Erthygl 32 2(b).

81. Mae Rheoliad y Comisiwn 1303/2013 hefyd yn nodi y bydd tasgau'r LAG yn cynnwys:

a) "meithrin gallu gweithredwyr lleol i ddatblygu a gweithredu gweithrediadau gan gynnwys meithrin eu gallu i reoli prosiectau;
b) llunio gweithdrefn ddethol nad yw'n gwahaniaethu a thryloyw a meini prawf gwrthrychol ar gyfer dethol gweithrediadau, sy'n osgoi gwrthdaro buddiannau, sicrhau bod o leiaf 50% o'r pleidleisiau mewn penderfyniadau dethol yn cael eu bwrw gan bartneriaid nad ydynt yn awdurdodau cyhoeddus, ac yn caniatáu dewis drwy weithdrefn ysgrifenedig;
c) sicrhau cydlyniad â'r strategaeth datblygu lleol a arweinir gan y gymuned wrth ddewis gweithrediadau, drwy flaenoriaethu'r gweithrediadau hynny yn ôl eu cyfraniad at gyflawni amcanion a thargedau'r strategaeth honno;
d) paratoi a chyhoeddi galwadau am gynigion neu weithdrefn cyflwyno prosiect barhaus, gan gynnwys diffinio meini prawf dethol;
e) derbyn ac asesu ceisiadau am gymorth;
f) dewis gweithrediadau a gosod swm y cymorth a, lle y bo'n berthnasol, cyflwyno'r cynigion i'r corff sy'n gyfrifol am ddilysu cymhwystra'n derfynol cyn ei gymeradwyo;
g) monitro gweithrediad y strategaeth datblygu lleol a arweinir gan y gymuned a'r gweithrediadau a gefnogir a chynnal gweithgareddau gwerthuso penodol sy'n gysylltiedig â'r strategaeth honno".

82. Mae'n bwysig bod gan y LAG strwythurau a gweithdrefnau clir ar gyfer ei lywodraethu corfforaethol ei hun sydd wedi'u hamlinellu mewn ffordd agored a thryloyw. Er mwyn cyflawni hynny, rhaid i bob LAG baratoi a chytuno ar ei 'Gylch Gorchwyl', sef dogfen a fydd yn rhoi sylw i'r materion allweddol, gan gynnwys:
    - sut y bydd aelodaeth y LAG yn cael ei chytuno;
    - sut y bydd cynrychiolaeth sectorol yn cael ei rheoli;
    - sut y bydd partïon â buddiant a rhanddeiliaid ehangach yn cael y wybodaeth ddiweddaraf;
    - sut y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal a'u cofnodi;
    - sut y bydd cworwm yn cael ei bennu;
    - sut y bydd achosion o wrthdaro buddiannau yn cael eu cofnodi a'u rheoli;
    - sut y bydd meini prawf dethol prosiect yn cael eu pennu;
    - sut y bydd apelau'n cael eu rheoli.

83. Rhaid i'r LAG gael ei sefydlu gyda chynrychiolaeth o'r tri sector; y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, fel y'u diffinnir yn yr adran flaenorol. Rhaid i'r LAG sicrhau bod digon o gynrychiolaeth yn bresennol fel ei fod yn adlewyrchu ehangder y sefydliadau cyhoeddus, y cwmnïau a'r sefydliadau trydydd sector yn ei ardal ac, i sicrhau bod yr amcan hwn yn cael ei gyflawni, argymhellir y dylai'r LAG gynnwys o leiaf 18 o aelodau.

84. Dylai aelodau unigol gynrychioli un sefydliad yn unig at ddibenion cyfansoddiad y LAG.

85. Fodd bynnag, yn aml bydd gan unigolion fuddiannau amrywiol yn y gymuned leol, felly rhaid i'r LAG sicrhau bod ganddo fecanwaith ar gyfer cofnodi'r buddiannau hynny mewn ffordd dryloyw. Mae hyn yn bwysig gan fod gan y LAG ddyletswydd i sicrhau, yn y cyfnod penderfynu, na all unrhyw grŵp buddiant unigol gynrychioli mwy na 49% o'r hawliau pleidleisio.

86. Er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl, rhaid i "grŵp buddiant unigol" gael ei ddiffinio'n eang fel ei fod yn cwmpasu cynrychiolaeth o'r tri phrif sector, yn ogystal â 'grwpiau buddiant' eraill megis y sector ffermio, Awdurdod Lleol, cwmni unigol, sefydliad lleol unigol y gall sawl aelod o'i staff fod yn aelod o'r LAG neu'r Corff Gweinyddol ei hun.

87. Er enghraifft; ni all mwy nag 8 aelod o'r 18 ar y LAG ddod o'r sector cyhoeddus, ond ni all mwy nag 8 aelod ddod o unrhyw "grŵp buddiant unigol" arall chwaith, felly bydd rhaid i unrhyw fuddiannau eilaidd sydd gan y bobl hynny sy'n aelodau o'r LAG gael eu hystyried. Rhaid i'r Cylch Gorchwyl amlinellu sut y bydd hynny'n cael ei reoli.

88. Mae'r rheoliad yn nodi na all unrhyw fudd unigol gynrychioli mwy na 49% o'r hawliau pleidleisio, felly rhaid i'r 'Cylch Gorchwyl' esbonio sut y bydd y gofyniad hwn yn cael ei fodloni o ran pennu'r cworwm sy'n ofynnol ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol a phenderfyniadau mewn perthynas â dyfarniadau cyllid.

89. Er enghraifft, os mai'r cworwm sy'n ofynnol am benderfyniad yw 8 aelod o'r LAG a bod gan ddau o'r aelodau sy'n bresennol fuddiant yn y cynnig, rhaid iddynt dynnu'n ôl o'r cyfarfod yn syth; bydd y rheol 49% yn dal i fod yn berthnasol ac efallai na fydd y chwe aelod sy'n weddill yn gallu gwneud penderfyniad gan na fydd yna gworwm mwyach.
90. Byddai'r un peth yn wir pe bai Cadeirydd y cyfarfod yn defnyddio pleidlais fwrw gan y byddai dau o'r hawliau pleidleisio wedyn o'r un sector a/neu sefydliad, felly byddai'n rhaid i'r cyfarfod sicrhau bod yna gworwm o hyd er mwyn gwneud penderfyniad mewn perthynas â dyfarniadau cyllid.

91. Bydd angen pwyso a mesur sawl ffactor cyn pennu nifer y cynrychiolwyr sydd eu hangen cyn y gall y cworwm wneud penderfyniad dilys ac, yn achos gweithrediad hirdymor y LAG, bydd angen i'r ffigur hwn fod yn uwch nag y byddai fel arfer. Awgrymir y dylai'r cworwm fod yn 8 o leiaf neu draean o gyfanswm aelodaeth y LAG, pa un bynnag sydd fwyaf, i roi mwy o gyfle i gyfarfodydd allu gwneud penderfyniadau sy'n cydymffurfio â'r rheolau.

92. Rhaid i'r 'Cylch Gorchwyl' amlinellu sut mae'r cyfle i ymuno â'r LAG yn cael ei wneud yn hysbys yn yr ardal, sut y bydd aelodaeth y LAG yn cael ei phenderfynu a sut y bydd y buddiannau sectorol yn cael eu cydbwyso.

93. Rhaid rhoi sylw arbennig yn y 'Cylch Gorchwyl' i sut y gall gweithdrefnau ysgrifenedig gael eu defnyddio pan fydd angen gwneud penderfyniadau i sicrhau bod y rheol 49% yn cael ei chynnal.

94. Mae gwrthdaro buddiannau a grëir wrth i'r broses benderfynu gael ei rheoli gan strwythurau lleol presennol a/neu sectorau neu fuddiannau dylanwadol yn risg wirioneddol i unrhyw brosiectau lleol. Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae hyn yn achosi cyfyng-gyngor i'r LAGs gan mai aelodau mwyaf gweithredol a gweithgar y gymuned yw'r rhai sydd â'r mwyaf o syniadau ac adnoddau ar gyfer prosiectau fel arfer, a gall eu heithrio effeithio ar egni ac arweinyddiaeth y LAG.

95. Dylai aelodau'r LAG ddatgan eu buddiant mewn prosiectau ac ni ddylent gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n uniongyrchol berthnasol iddynt, a rhaid i'r mecanwaith ar gyfer rheoli hyn gael ei egluro yn y Cylch Gorchwyl.

96. Rhaid i 'Gylch Gorchwyl' y LAG gynnwys gweithdrefn glir a syml ar gyfer unrhyw apelau yn ymwneud â chanlyniad proses ddethol.

DEWIS GWEITHGAREDDAU NEU BROSIECTAU

97. Y LAG yw'r corff penderfynu ar gyfer dewis prosiectau ac ni all y cyfrifoldeb hwn gael ei ddirprwyo i unrhyw sefydliad neu is-grŵp arall y tu allan i'r prif LAG. Mae'r LAG yn cael ei gefnogi gan ei Gyrff Gweinyddol, sy'n rheoli'r prosesau a'r gweithdrefnau mae'r LAG wedi'u rhoi ar waith.

98. Mae manylion y prosesau a'r meini prawf dethol yn cael eu diffinio a'u penderfynu gan bob LAG ar wahân, ond mae yna rai gofynion a ddylai fod yn gyffredin ar draws pob ardal LAG.

99. Rhaid i'r gweithdrefnau a'r meini prawf ymgeisio a dethol gael eu hamlinellu'n glir yn y deunyddiau ymgeisio ac unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd cysylltiedig. Rhaid i'r LAGs weithredu mewn ffordd deg, agored a thryloyw mewn perthynas â'r meini prawf dethol ac wrth reoli'r broses ymgeisio a dethol.

100. Mae sicrhau tryloywder y meini prawf dethol prosiect a'r broses ddethol yn bwysig er mwyn sicrhau bod gan y LAG ei hun, y Corff Gweinyddol, staff a darpar ymgeiswyr ddealltwriaeth glir, gyson a chyffredin o'r prosesau.

101. Bydd y LAGs yn cyflawni eu hamcanion trwy weithgarwch prosiect, ond dim ond trwy brosesau dethol prosiect effeithiol y bydd y LAGs yn gallu dewis a chefnogi'r prosiectau hynny sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf at gyflawni amcanion eu LDS. Mae angen y prosiectau cywir er mwyn sicrhau'r canlyniadau dymunol.

102. Dewis prosiectau i gyflawni'r amcanion hynny yw un o'r swyddogaethau

strategol pwysicaf mae'r LAG yn eu cyflawni, felly mae'n hollbwysig bod y broses hon yn cael ei chynllunio'n ofalus fel ei bod yn cyd-fynd â'r LDS.

103. Mae yna dair prif elfen sydd angen eu hystyried; sef:
    1. y meini prawf asesu;
    2. y broses asesu;
    3. y ffordd mae prosiectau'n cael eu rhoi ar waith.

104. Dylai'r meini prawf asesu gael eu hamlinellu yn nhrefniadau gweithredu'r LDS a dylent fod yn gyson ac yn uniongyrchol gysylltiedig â dadansoddiad tiriogaethol a rhesymeg ymyrraeth yr LDS, yr amcanion CAMPUS a'r dangosyddion monitro a gwerthuso arfaethedig. Bydd y rhain yn cynnwys meini prawf technegol ac ansawdd.

105. Rhaid i'r broses asesu gael ei phenderfynu gan y LAG a dylid sicrhau ei bod yn ysgogi gwneud penderfyniadau gwybodus, gwrthrychol a gofalus trwy weithdrefn gadarn a thryloyw. Er lles tryloywder, dylai meini prawf arfarnu fod ar gael a dylent fod yn hygyrch i ddarpar ymgeiswyr.

106. Mae sicrhau tryloywder y weithdrefn ymgeisio a dethol yn bwysig er mwyn cynnal brwdfrydedd ac ymddiriedaeth sefydliadau lleol. Dylai'r gweithdrefnau a'r meini prawf ymgeisio a phenderfynu gael eu hamlinellu'n glir yn y deunyddiau ymgeisio ac unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd cysylltiedig, a gellir cael cyngor ar y broses gan Gorff Gweinyddol y LAG. Er bod y gweithdrefnau eu hunain yn bwysig, rhaid dangos bod y gweithdrefnau hynny'n cael eu rhoi ar waith; mae'n hollbwysig bod y LAG yn gwneud yr hyn y mae'n dweud y bydd yn ei wneud ac yn cyfathrebu hynny'n glir i ymgeiswyr.

Datblygu a dethol prosiect: proses strategol

107. Gall y ffordd mae prosiectau'n cael eu datblygu gael effaith sylweddol ar fath ac ansawdd y prosiectau a gyflwynir a'u gallu i wneud cyfraniad at gyflawni amcanion yr LDS. Felly, dylai LAGs gynllunio a defnyddio proses datblygu prosiect sy'n annog a chefnogi'r mathau o brosiectau sy'n gallu cyflawni eu blaenoriaethau.

108. Mae'n glir ei bod hi'n gwneud synnwyr i'r LAG 'lywio' y broses ddatblygu hon er mwyn annog y math cywir o geisiadau a llywio'r datblygiadau tuag at brosiectau llwyddiannus sy'n cyfrannu at flaenoriaethau'r LDS.

Gweithio gyda galw

109. Y peth cyntaf y bydd rhaid i'r LAG ei ystyried yw'r cyd-destun ar gyfer

datblygu prosiectau gan na fydd y galw am fathau penodol o brosiectau yn cyfateb o reidrwydd i amcanion y LAG a'i LDS.

110. Efallai y bydd prinder prosiectau a diffyg momentwm a brwdfrydedd, er enghraifft, lle mae yna anawsterau economaidd a diffyg arian cyfatebol. Yma, gall y LAG ysgogi gweithgarwch pwysig trwy gefnogi'r gwaith o gynyddu capasiti a datblygu syniadau cyflym; prosiectau bach sy'n gallu troi'n gamau gweithredu a chanlyniadau yn gyflym.

111. Efallai y bydd llawer iawn o alw ond, os na fydd yn cyfateb i'r LDS na'i amcanion, er enghraifft, prosiectau amhriodol neu gyffredinol nad oes ganddynt ffocws strategol neu gysylltiadau â'r LDS. Efallai y bydd y LAG yn gweithio gyda darpar ymgeiswyr i lywio ac annog syniadau neu i gymell y mathau 'cywir' o gynigion a chefnogi eu datblygiad.

112. Efallai mai'r syniadau gorau fydd y rhai anoddaf i'w darparu o safbwynt y LAG a hyrwyddwyr y prosiect gan fod prosiectau arloesol yn tueddu i fod yn fwy heriol a chymhleth, ac yn gallu bod yn anghyfforddus i randdeiliaid lleol. Maent yn aml yn cynnwys cysylltiadau â syniadau neu fentrau eraill, cysylltiadau newydd a/neu gyd- destunau newydd, sy'n gwneud darparu'n fwy cymhleth fyth. Yn aml, gan nad oes gan y mathau hyn o brosiectau unrhyw hanes blaenorol y gellir ei bwyso a'i fesur, fe'u hystyrir yn ormod o risg felly efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i gymorth priodol.

Galw am gynigion ar gyfer prosiectau

113. Wrth baratoi i alw am brosiectau, mae angen i LAGs sicrhau bod cyfleoedd i wneud cynigion yn cael eu hysbysebu'n eang yn ardal y LAG. Rhaid i LAGs ystyried a fydd y wybodaeth am y cyfleoedd hyn yn cyrraedd y gynulleidfa briodol. Mae cyfathrebu effeithiol yn hollbwysig fel y gall y LAG gyflawni ei rwymedigaeth i fod yn agored a thryloyw.

114. Efallai yr hoffai LAGs gyflwyno rhyw elfen o dargedu; gall galwadau penodol wedi'u targedu ymwneud â:

- blaenoriaeth neu amcan LDS penodol;
- gwahanol grwpiau o fuddiolwyr targed;
- blaenoriaethau thematig e.e. yr amgylchedd, twristiaeth, arallgyfeirio ac ati;
- prosiectau cyfunol;
- gwahanol lefelau o gymorth;
- prosiectau o wahanol faint.

Yn y ddau achos diwethaf, mae'n hynod bwysig ystyried yr egwyddor o gymesuredd ym mhroses benderfynu'r LAG.

Proses ymgeisio ar gyfer prosiectau

115. Pa bynnag ddull a fabwysiadir, mae proses ymgeisio dau gam yn ddymunol; gall defnyddio datganiad o ddiddordeb neu ymholiad cychwynnol am wybodaeth gychwynnol helpu i chwynnu cynigion anghymwys neu amhriodol cyn i amser ac adnoddau gwerthfawr gael eu gwastraffu. Gall prosiectau a wrthodir yn y cam hwn gael eu haddasu fel eu bod yn cyfateb i flaenoriaethau'r LDS neu eu hailgyfeirio at ffynonellau cymorth mwy priodol. Ar gyfer ceisiadau llwyddiannus, mae'r ffurflenni hyn yn helpu i lywio'r LAG a'i staff a'u rhoi mewn cysylltiad â hyrwyddwr y prosiect, gan eu galluogi i ddefnyddio'r canllawiau a'r cymorth a nodir uchod i ddatblygu'r cais llawn.

Mathau o feini prawf

116. Mae yna ddau brif fath o feini prawf penderfynu y mae'n rhaid i LAGs ymdrin â nhw:

    1. Meini prawf cymhwysedd ar gyfer asesu pa mor dderbyniol yw ceisiadau;
    2. Meini prawf dethol ar gyfer asesu ansawdd ceisiadau a'u rhoi mewn trefn ar sail ansawdd.

    Os yw'r LAG yn defnyddio Cronfeydd ESI eraill hefyd, mae angen cydgysylltu clir rhwng y cronfeydd hynny a'r LDS LEADER, felly mae hyn yn awgrymu cytgord cryf rhwng y meini prawf cymhwysedd.

Meini prawf cymhwysedd

117. Meini prawf cymhwysedd ar lefel Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020 craidd yw'r meini prawf hanfodol y mae'n rhaid i bob prosiect eu bodloni er mwyn cael eu derbyn am asesiad ansoddol pellach. Gan amlaf, mae'r rhain yn ymwneud â'r gweithgareddau cymwys, buddiolwyr a gwariant. Fel arfer, mae meini prawf cymhwysedd o'r fath yn cael eu hasesu trwy asesiad technegol; ni ddefnyddir unrhyw werthoedd trothwy ac mae'r dyfarniad yn absoliwt.

118. Mae meini prawf cymhwysedd penodol i LDS yn tueddu i fod yn fwy cysylltiedig â thargedu'r strategaeth o ran ardal, buddiolwyr neu fathau o weithgarwch a gefnogir. Mae gan y rhain fwy o gysylltiad â'r LDS ac, fel arfer, cânt eu rhoi ar waith gan y LAG i sicrhau cysondeb gweithgarwch prosiect.

119. Ym mhob achos, mae'n bwysig bod y meini prawf cymhwysedd yn cael eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl yn y broses ymgeisio. Dylai'r meini prawf hyn gael eu cyfathrebu'n glir mewn deunyddiau cyhoeddusrwydd ac ymgeisio i sicrhau bod pobl yn gwybod y rheolau. Yna, dylai prosiectau gael eu sgrinio yn eu herbyn, yn ddelfrydol mewn datganiad o ddiddordeb neu gais cam cyntaf. Mae hyn yn osgoi gwastraffu amser yn datblygu prosiect a gall fod yn gyfle i addasu cynigion prosiect os yn briodol.

120. Dylai canllawiau a chymorth parhaus i ddatblygu prosiect geisio sicrhau bod y ceisiadau llawn yn dal i fod yn gymwys a bod unrhyw amodau penodol e.e. caniatâd cynllunio, yn cael eu datrys cyn gwneud y penderfyniad yn ffurfiol.

Meini prawf dethol prosiect

121. Y LAG sy'n gyfrifol am asesu ansawdd prosiectau a dim ond y LAG all gyflawni'r swyddogaeth hon. O dan Atodiad 1 Rheoliad y Comisiwn 1303/2013, mae'n ofynnol i LAGs lunio, diffinio a chyflwyno eu meini prawf dethol prosiect LDS. Yn unol ag arfer da, dylai LAGs gynnwys meini prawf dethol yn eu cynllun gweithredu LDS.

122. Dylai meini prawf dethol gael eu haddasu i nodweddion penodol yr ardal a dylid eu cynllunio fel eu bod yn asesu addasrwydd a chyfraniad y cynigion at y strategaeth, ei grwpiau targed a'i hamcanion. Efallai y caiff y rhain eu mireinio ymhellach mewn galwadau am gynigion prosiect i gynnwys meini prawf sy'n benodol i un math o weithgarwch, ardal neu grŵp targed.

123. Rhaid i'r meini prawf hyn allu llywio proses benderfynu'r LAGs, ac mae hyn yn golygu gwneud penderfyniadau ansoddol a meintiol mewn perthynas â pha mor ddymunol yw'r prosiectau. Gall meini prawf o'r fath gynnwys:

- i ba raddau mae'r prosiect yn cyfrannu at gyflawni'r strategaeth ac yn ategu gweithgareddau a gwmpesir gan fentrau perthnasol eraill;
- i ba raddau mae'r prosiect yn ymateb i anghenion dynodedig ac yn cael eigefnogi gan dystiolaeth o alw arfaethedig;
- i ba raddau mae'r prosiect yn briodol i'r ardal leol ac yn diwallu anghenion lleol.

Er mwyn i LAGs allu gwneud dyfarniadau gwrthrychol gan ddefnyddio'r meini prawf hyn, mae'n hollbwysig eu bod yn fesuradwy.

124. Fel arfer, byddai meini prawf dethol penodol i LDS yn cynnwys y canlynol o leiaf:

- i ba raddau mae'r prosiect yn cyfrannu at gyflawni'r strategaeth;

- i ba raddau mae'r prosiect yn ategu gweithgareddau a gwmpesir gan fentrau perthnasol eraill;
- i ba raddau mae'r prosiect yn ymateb i angen dynodedig ac yn gyson â hynny;
- i ba raddau mae'r prosiect yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth o alw gwirioneddol neu arfaethedig (gan gynnwys asesiad o ddisodli gweithgareddau presennol);
- i ba raddau mae'r prosiect arfaethedig yn briodol i'r ardal leol, o ran ymyrraeth a'r dull o'i ddarparu;
- manteision ychwanegol canlyniadau'r prosiect h.y. i ba raddau mae cyflawni'r canlyniadau hyn yn dibynnu ar gymorth LEADER;

- cynnwys cerrig milltir a thargedau ymarferol a mesuradwy gyda dangosyddion perfformiad cysylltiedig;
- gwerth am arian h.y. y cydbwysedd rhwng costau arfaethedig a chymorth LEADER yn erbyn y canlyniadau bwriedig (e.e. trwy gymharu â mentrau eraill neu feincnodau prosiect);
- ymarferoldeb y dull arfaethedig o ran ei gyflawni'r ffisegol ac ariannol, ei hyfywedd a gallu'r ymgeiswyr i gyflawni;
- cynaliadwyedd y cynnig a beth yw'r strategaeth gwblhau, parhau neu ymadael.

Y Broses Dethol Prosiectau

125. Wrth gynllunio'r meini prawf dethol, mae angen i'r LAGs ystyried sut y bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol h.y. sut y bydd dyfarniadau'n cael eu gwneud yn y broses benderfynu. Mae dulliau cyffredin yn cynnwys sgorio prosiectau yn erbyn rhestri gwirio neu o fewn matricsau; felly, mae hyn yn golygu gosod gwerthoedd yn erbyn meini prawf gan LAGs. Er mwyn darparu sail gadarn i gyfiawnhau penderfyniadau, mae angen cynllunio'r ffordd mae ceisiadau'n cael eu hasesu yn erbyn meini prawf yn ofalus.

126. Wrth gynllunio meini prawf, dylai LAGs ystyried y canlynol:
    - pa mor berthnasol ydynt a sut y byddent yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol yn erbyn prosiectau;
    - cysondeb; dylai'r meini prawf alluogi i brosiectau gael eu hasesu yn erbyn blaenoriaethau'r LDS a'r canlyniadau bwriedig;
    - a all y meini prawf gael eu rhoi ar waith yn yr un modd yn erbyn llawer o wahanol geisiadau;

- cysylltiadau â dangosyddion, fel sail i fesur cyflawniadau posibl yr LDS;
- sut y bydd y penderfyniadau a wneir yn cael eu defnyddio yn ymarferol.

CYDWEITHREDU TIRIOGAETHOL A THRAWSWLADOL

127. Gall cydweithrediad ardal LAG gydag ardaloedd daearyddol eraill fod yn elfen allweddol o'r LDS neu'n ased ychwanegol i'r strategaeth hon. Mae'n gallu datblygu mewn camau, o gyfnewid profiad i droi ymarfer addawol yn weithgarwch cyffredin. Yn ogystal, gall cydweithredu â thiriogaethau eraill sy'n gweithredu LEADER neu fathau eraill o Ddatblygiad dan Arweiniad y Gymuned (CLLD) fod yn adnodd strategol y gall y LAG ei ddefnyddio i gyrraedd y màs critigol sydd ei angen ar gyfer rhai prosiectau neu i gyfuno adnoddau ac arbenigedd cyflenwol.

128. Yn ogystal â chydweithredu tiriogaethol (o fewn Aelod-wladwriaeth), mae cydweithredu trawswladol yn rhoi gwerth ychwanegol Ewropeaidd ategol i ddatblygiad lleol. Yn ogystal â hyn, mae cydweithredu yn ffordd o ehangu safbwyntiau lleol er mwyn gwella strategaethau lleol a chyflwyno gwybodaeth newydd i'r ardal. Ar yr un pryd, mae'n gallu hybu cymeriad arloesol camau datblygu lleol a chyfrannu at wella cystadleurwydd trwy gynyddu capasiti a phartneriaid busnes newydd, gan ledaenu arloesedd, gwybodaeth a sgiliau newydd.

129. Mae cydweithredu yn elfen orfodol o fesur LEADER yn Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, felly mae'n ofynnol bod pob LAG yn cynnal o leiaf un prosiect neu weithgarwch cydweithredu yn ystod cyfnod y rhaglen.

130. Mae gwybodaeth am gwmpas daearyddol partneriaid cydweithredu posibl gyda LAGs o dan fesur LEADER i'w gweld yn Erthygl 44 (2) o Reoliad y Comisiwn 1305/2013. Mae hyn yn cael ei ddehongli'n gymharol eang, gan ystyried y gwahanol fathau o bartneriaethau presennol rhwng ardaloedd gwledig ac ardaloedd daearyddol eraill o fewn yr UE a thu hwnt. Fodd bynnag, dim ond prosiectau a ddewisir gan LAGs o dan fesur LEADER sy'n gymwys i gael cyllid gan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020.

131. Efallai y bydd gan LAGs bartner prosiect cydweithredu nad yw'n LAG arall, ond sy'n "grŵp o bartneriaid cyhoeddus a phreifat lleol sy'n rhoi strategaeth datblygu lleol ar waith". Mae hyn yn golygu bod rhaid i gwmpas gweithredu'r grŵp hwn fod yn debyg i gwmpas LAG, ond nid oes rhaid iddo gydymffurfio â'r holl nodweddion a nodir ym mharagraff 3.1 Cyfarwyddyd Cydweithredu LEADER. (27/04/2017).

132. Mae prosiectau cydweithredu angen lefel uwch o gydgysylltu ac, yn aml, bydd ganddynt ddimensiwn cyfunol neu diriogaethol cryf hefyd. Efallai mai'r LAG ei hun fydd buddiolwr terfynol y cymorth a ddarperir ar gyfer prosiect cydweithredu.

133. Mae cymorth technegol paratoadol yn gost gymwys o dan fesur LEADER. Gall gynnwys; costau'n ymwneud â chyfnewid profiad (e.e. cyfarfodydd gyda darpar bartneriaid, teithio, llety a ffioedd cyfieithydd), neu costau cyn datblygu prosiect (e.e. astudiaeth dichonoldeb prosiect, ymgynghori ar faterion penodol, costau cyfieithu, costau staff ychwanegol).

134. Dan baragraff 3.2.2 Cyfarwyddyd Cydweithredu LEADER (27/04/2017) gall prosiect cydweithredu gael ei ddisgrifio fel gweithgarwch pendant gyda thargedau cyflawnadwy clir sy'n sicrhau buddiannau i'r tiriogaethau.

135. Efallai y bydd prosiectau yn canolbwyntio hefyd ar wella capasiti a throsglwyddo profiad ar ddatblygiad lleol e.e. trwy gyhoeddiadau cyffredin, seminarau hyfforddi, trefniadau gefeillio (cyfnewid rheolwyr a staff prosiect), gan arwain at fabwysiadu dulliau gweithio a methodolegol cyffredin neu fanylu ar waith datblygu cydgysylltiedig.

136. Ym mhob math o brosiect cydweithredu, argymhellir y dylai partneriaid ddiffinio/cytuno ymlaen llaw ar y meini prawf allweddol yn ymwneud â'r gweithgareddau i'w dethol a'u cyflawni. Mae hi'n bwysig hefyd bod partneriaid cydweithredu yn rhoi gwybod i'w gilydd am gynnydd gyda'r prosiect ac unrhyw newidiadau i'r dull o'i weithredu er mwyn darparu ar gyfer addasiadau angenrheidiol sy'n sicrhau bod amcanion y prosiect yn cael eu cyflawni.

137. Dylai'r meini prawf cymhwysedd a dethol ddilyn yr un dull ag a ddefnyddir ar gyfer prosiectau a roddir ar waith o dan yr LDS.

138. Mae heriau penodol yn gysylltiedig â phrosiectau cydweithredu trawswladol gan y gall fod angen i wahanol elfennau o'r costau gael eu cymeradwyo a'r hawliadau gael eu talu gan wahanol Awdurdodau Rheoli. Er mwyn cydnabod y materion hyn, mae gan Reoliad y Rhaglen Datblygu Gwledig ddarpariaethau a ddylai helpu i roi'r prosiect ar waith trwy roi rhwymedigaethau penodol ar Awdurdodau Rheoli i reoli'r cydweithredu trawswladol, yn ogystal â rhoi rhwymedigaethau ar Rwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop a'r Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol mewn perthynas â'r cymorth technegol ar gyfer cydweithredu trawswladol.

139. Mae canllawiau ar weithgareddau cydweithredu ar gael gan Uned Gymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru, ar wefan y Comisiwn a gan Rwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop.

Y RHEOLIAD CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA (GDPR)

140. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cais mynegi diddordeb a cheisiadau llawn yn destun yr Hysbysiad Preifatrwydd . Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn prosesu ac yn defnyddio eich data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

ATODIAD A

ENGHREIFFTIAU O BROSIECTAU A GWEITHGAREDDAU A ALLAI DDERBYN CYMORTH DRWY WEITHREDU LEADER

Datblygu cyfleoedd newydd ar gyfer gweithgareddau chwaraeon gyda disgyblion ysgol uwchradd

Mae clwb golff lleol yn penderfynu rhoi cyfle i ddisgyblion ysgol roi cynnig ar golff fel gweithgaredd hamdden yn dilyn twrnamaint mawr. Mae'r clwb yn awgrymu dwy sesiwn am 4pm ar ddydd Mawrth a dydd Mercher pan fo'r cwrs yn dawel, a sesiynau yn gynnar fore Sul.

Mae LEADER yn talu £100 y sesiwn 'r golffiwr proffesiynol gynnal y sesiynau hyn ar gyfer hyd at 10 o ddisgyblion. Dyrennir 60 awr y mis i un o'r Swyddogion Datblygu gysylltu â'r ysgolion, cydgysylltu â'r disgyblion a chefnogi'r golffiwr proffesiynol.

Mae'r prosiect ar waith am dri mis fel treial i gychwyn.

Enghraifft o'r costau

Tair sesiwn hyfforddi yr wythnos am 12 wythnos	£3,600
Amser y Swyddog Datblygu (60 awr y mis @ £15.60 yr awr)	£2,808
Costau teithio'r Swyddog Datblygu	£500
Gorbenion anuniongyrchol (costau syml – 10% o gostau staff)	£280
Cyfanswm cost y prosiect	£7,188

Datblygu gweithgareddau hamdden ar ôl ysgol gyda disgyblion ysgol uwchradd

O fewn grŵp o bentrefi bach, nid oes yna glybiau ar ôl ysgol na chlybiau ieuenctid ac mae yna deimlad yn fwy cyffredinol bod yna ddirywiad o ran ymgysylltu yn y gymuned leol.

Mae rhywun ar y LAG yn awgrymu efallai y gellid cefnogi rhyw fath arall o leoliad i ddarparu cyfleusterau y byddai'r disgyblion yn hapus i'w defnyddio.

Gwneir galwad agored am dafarnau lleol i gynnal nosweithiau gweithgareddau i bobl ifanc 14-28 oed. Byddai 'ffi gwasanaeth' yn cael ei thalu i unrhyw landlord a fyddai am gymryd rhan a byddai cymorth yn cael ei ddarparu trwy weithiwr ieuenctid profiadol a fyddai'n hwyluso'r cynllun cyfan. Mae chwe thafarn yn dangos diddordeb.

Mae'r prosiect ar waith am chwe mis fel treial i gychwyn.

Enghraifft o'r costau

Ffioedd gwasanaeth i landlordiaid (chwe thafarn @ £60 y sesiwn)	£9,360

Gweithiwr Ieuenctid amser llawn (chwe mis)	£15,000
Costau Rheoli (amser staff Corff Gweinyddol y LAG,	
60 awr y mis @ £21.72 yr awr)	£13,032
Gorbenion anuniongyrchol (costau syml – 10% o gostau staff)	£2,803
Costau teithio'r ddau aelod staff (amcangyfrif)	£2,000
Cyfanswm cost y prosiect	£42,195

Mae'r prosiect ar waith am dri mis cyn cael ei adolygu. Mae dwy o'r tafarnau'n cael cymorth i gael mynediad at y cynllun band eang fel y gallant uwchraddio eu cysylltiadau band eang er mwyn cynnal sesiynau gêm rhwng tafarnau. Mewn un dafarn, mae'r disgyblion wedi cynnal noson lle maent wedi dangos sgiliau cyfrifiadurol sylfaenol i bobl, megis sut i ddod o hyd i wybodaeth am wasanaethau lleol. Mae rhai disgyblion eraill am gymryd rhan, ond mae cludiant yn broblem.

Mae cwmpas y prosiect yn cael ei ymestyn trwy alw ar gwmnïau tacsi lleol i ddarparu cludiant i'r lleoliadau ac oddi yno i ddisgyblion nad oes ganddynt fodd arall o gyrraedd y lleoliadau hynny. Gwneir hyn ar gyfraddau arferol y tacsis, ond mae'r biliau'n cael eu hanfon yn uniongyrchol i'r prosiect trwy anfoneb misol. Amcangyfrifir bod cost tacsis yn ychwanegu £2,000 at gostau'r prosiect.

<u>Datblygu canolfannau croeso lleol newydd</u>

Nid oes gan ardal o ucheldir ganolfan groeso, a phrin iawn yw'r llefydd lle gellid gosod byrddau gwybodaeth. Awgrymwyd efallai y gallai gorsafoedd petrol a/neu siopau lleol ddarparu rhyw fath o wasanaeth a chynnig 'pwyntiau gwybodaeth'.

Gelwir ar orsafoedd petrol a busnesau lleol eraill i ddarparu 'pwyntiau gwybodaeth'. Byddai darparwyr yn cael cynnig £480 y flwyddyn i ddarparu pwynt gwybodaeth.

Penodir swyddog prosiect rhan-amser i gasglu gwybodaeth am lefydd o ddiddordeb, atyniadau i dwristiaid a busnesau lleol ar gyfer y pwyntiau gwybodaeth. Gwneir galwad agored arall am gymorth marchnata/cysylltiadau cyhoeddus i frandio'r pwyntiau gwybodaeth; ysgrifennu a chyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd gyson a chael sylw yn y cyfryngau print ac ar-lein.

Ehangir cwmpas y prosiect trwy gysylltu â grwpiau hanes lleol, grwpiau cerdded lleol a sefydliadau eraill megis clybiau chwaraeon a physgota a gofyn iddynt ddarparu deunydd cefndir ar lefydd o ddiddordeb megis adeiladau arbennig, llwybrau cerdded, busnesau neu'r amgylchedd lleol. Gallai hyn gynnwys ymchwil ar y rhain i ddarparu gwybodaeth newydd. Mae'r grwpiau neu'r sefydliadau lleol

yn cael ffi am eu gwaith ac mae'r wybodaeth a gesglir yn cael ei hysgrifennu gan y cwmni cysylltiadau cyhoeddus.

Mae'r prosiect yn rhedeg am ddwy flynedd fel treial i gychwyn.

Enghraifft o'r costau

Pwyntiau Gwybodaeth lleol – 11 @ £480.00 y flwyddyn	£10,560
Cymorth marchnata/cysylltiadau cyhoeddus ac argraffu (amcangyfrif)	£8,000
Ymchwil newydd (amcangyfrif)	£2,000
Swyddog Prosiect (40 awr y mis @ £15.60 yr awr)	£14,976
Costau rheoli (amser staff Corff Gweinyddol y LAG, 96 awr @ £21.72)	£2,085
Gorbenion anuniongyrchol (costau syml – 10% o gostau staff)	£1,706
Costau teithio'r ddau aelod o staff (amcangyfrif)	£4,000
Cyfanswm cost y prosiect	£43,327

Ychwanegu gwerth at gynhyrchion amaethyddol lleol

Mae grŵp o ffermwyr defaid lleol am ddod o hyd i ffordd o gael pris uwch am eu hŵyn trwy eu gwerthu'n 'uniongyrchol' i gyfleusterau lletygarwch lleol megis tafarnau, gwestai, bwytai a chaffis.

Mae'r swyddog prosiect yn helpu'r ffermwyr (tua wyth fferm i gychwyn) i ffurfio grŵp i archwilio'r trefniadau presennol o ran cynnal adolygiadau busnes fferm. Mae pob busnes yn cynnal asesiad manwl o ble a sut y gellir gwneud y gwelliannau hyn i agweddau technegol ac ariannol eu busnes er mwyn gwella proffidioldeb.

Mae'r swyddog prosiect yn gweld pa gymorth arall sydd ar gael i gydgysylltu'r gadwyn gyflenwi fel y gall ffermwyr ddysgu mwy am ble i farchnata eu hŵyn a pha fath o brisiau y gallent eu cael am yr ŵyn hynny. Mae hyn yn arwain at ddigwyddiad Cwrdd â'r Prynwr lleol iawn lle mae pobl o siopau lleol a allai werthu'r cynnyrch i'r ffermwyr yn dod at ei gilydd i drafod y syniad ac asesu pa gymorth arall allai fod ar gael, os o gwbl.

Mae'r swyddog prosiect yn helpu'r grŵp ehangach newydd i gael gafael ar ymgynghorwyr arbenigol fel bod pawb yn y gadwyn gyflenwi yn deall y strategaethau prisio a fyddai'n angenrheidiol i wneud i'r prosiect weithio, cyfanswm y cynhyrchion fyddai eu hangen a natur dymhorol y cyflenwad. Byddai hyn hefyd yn cynnwys asesiad manwl o faterion megis y defnydd o garcasau a ffynonellau cyflenwi amgen pe bai'r galw'n cynyddu.

Mae'r grŵp yn gweld bod digon o alw i archwilio'r syniad ymhellach, ac mae'n cynnwys yr un cigydd yn yr ardal i weld a allai weithredu fel prosesydd a chyflenwr.

Gwneir galwad agored am gymorth marchnata/cysylltiadau cyhoeddus i helpu i baratoi ychwanegiadau at fwydlenni'r cyfleusterau lletygarwch sy'n esbonio stori'r grŵp a chysylltiadau cyhoeddus ehangach. Mae'r gwaith cychwynnol yn llwyddiannus ac mae gwasanaeth gwely a brecwast lleol (nad yw'n cynnig pryd nos) yn gofyn i'r grŵp a allai gyflenwi cig moch a selsig lleol gan nad yw'r pethau hynny ar gael iddynt. Mae'r grŵp yn ystyried cadw nifer fach o foch pesgi ac mae'r swyddog prosiect yn helpu gyda'r gwaith cefndir i ddod o hyd i foch priodol a phrosesydd addas. Mae hyn yn broblem, gan fod y prosesydd cig moch agosaf gryn bellter i ffwrdd a byddai'r costau cludiant yn gwneud y cynnyrch terfynol yn rhy ddrud.

Mae'r grŵp yn ailadrodd ei waith blaenorol i asesu cwmpas tebygol y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys cyflenwi'r cigydd lleol, ac archwilio'r costau cyffredinol yn fanylach.

Yn y pen draw, mae'r grŵp yn penderfynu bod yna ddigon o gyfleoedd i gyfiawnhau prosesu'r cig moch yn lleol, felly mae'n cael cymorth i ddod o hyd i grantiau i greu ystafell brosesu fach â chyfarpar ynddi er mwyn gwneud hyn, ac yna mae'n mynd ati i brynu'r moch.

<u>Enghraifft o'r costau</u>

Cymorth marchnata/cysylltiadau cyhoeddus ac argraffu (amcangyfrif)	£8,000
Ymgynghori technegol ar fwyd (amcangyfrif)	£2,000
Swyddog prosiect (200 awr @ £15.60 yr awr) £3,120 Costau rheoli (amser staff Corff Gweinyddol y LAG, 20 awr @ £21.72)	£4,344
Gorbenion anuniongyrchol (costau syml – 10% o gostau staff)	£746
Costau teithio'r ddau aelod o staff (amcangyfrif)	£1,000
Cyfanswm cost y prosiect	£19,210